

Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henlys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk



GWAHODDIAD I RIENI/INVITATION FOR PARENTS

Sbarc a Seren ydyn ni! Byddwn ni'n gymeriadau pwysig iawn ym mywyd eich plant yn y dyfodol. Ni yw cymeriadau swyddogol y Siarter iaith.

Beth yw'r Siarter iaith?


Nod y Siarter iaith yw annog plant i siarad Cymraeg yn amlach mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arwain y Siarter, ac yn eu geiriau nhw, 'Mewn gair, ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau' yw'r nod. Dros y tair blynedd nesaf, bydd pob plentyn ym mhob ysgol Gymraeg yn cael cyfle i ennill gwobr efydd, arian ac aur. Mae hyn yn dibynnu ar faint o Gymraeg maen nhw'n ei siarad o ddydd i ddydd - mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Siarter iaith yn gyfle i bawb yng nghymuned yr ysgol chwarae eu rhan wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg - cyngor yr ysgol, y disgyblion, y gweithlu, **rhieni**, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn o'r iaith.

Beth yw manteision y Siarter iaith?

Rydych chi eisoes wedi dewis addysg Gymraeg i'ch plentyn ac yn deall manteision medru siarad dwy iaith. Mae cywirdeb iaith yn holl bwysig yn nhermau cyrhaeddiad addysgol plant. Y ffordd orau o sicrhau hyn wrth eich bod chi, fel cymuned yr ysgol, yn annog eich plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle posibl.

Rydym ni yn gyffrous iawn i weithio gyda phob rhiant i gynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad yn yr ysgol a thu hwnt.

RYDYM YN GYFFROUS IAWN I FOD YN RHAN O'R FENTER HON A HOFFEM EICH GWAHODD I'W LANSIAD AR Y 18fed O IONAWR 2017. GWELER Y POSTER DROSODD AM FANYLION LLAWN O'R HYN A FYDD YN DIGWYDD YN YSTOD Y PRYNHAWN.



We are Sbarc and Seren. You are sure to see a lot of us around the school over the coming months and we will play an important part in your child's life during in the future. We are the official characters for the Welsh Language Charter.

What is the Welsh Language Charter?

The main aim of the charter is to increase the children's social use of Welsh. We want to inspire our children and young people to use Welsh in every aspect of their lives. Over the next three years the school will have the opportunity to win a bronze, silver and gold award. The Welsh Language Charter asks for a contribution from every member of the school community – the pupils, the school council, the staff, **the parents**, the governors and the community.

What are the advantages of the Charter?

Raising the standard of the children's spoken Welsh will have a positive effect on their educational attainment. Research shows that bilingual children achieve better results.

We are enthusiastic to work with all parents to raise the amount of Welsh spoken in the school and beyond.

WE ARE VERY EXCITED TO BE PART OF THIS NEW INITIATIVE AND WOULD LIKE TO INVITE YOU ALL TO ITS LAUNCH ON 18th JANUARY 2017. PLEASE SEE THE POSTER OVERLEAF FOR FULL DETAILS OF WHAT WILL BE TAKING PLACE DURING THE AFTERNOON.